**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1272
Ein cyf/Our ref JJ/01547/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

05 Awst 2022

Annwyl Jack,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf ynghylch anifeiliaid anwes mewn eiddo rhent preifat.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau sy'n ei gwneud yn glir i landlordiaid bod yn rhaid i gontractau newydd o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gydymffurfio â Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ynghylch tegwch o ran telerau. Nodir hefyd y dylai unrhyw gymal sy'n ymwneud ag anifeiliaid anwes fel teler ychwanegol yn y contract ganiatáu i ddeiliad contract ofyn am ganiatâd i gadw anifail anwes, ac ni fyddai'r landlord yn cael gwrthod y cais yn afresymol (Rhentu cartrefi: cwestiynau cyffredin (landlordiaid) | LLYW. GYMRU).

Byddaf yn gofyn i fy swyddogion sicrhau bod yr holl ganllawiau wedi eu lleoli mewn un man amlwg o'r wefan ar gyfer landlordiaid a thenantiaid, gan esbonio beth yw hawliau a chyfrifoldebau pobl o ran cadw anifeiliaid anwes mewn eiddo rhent yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau ei fod yn cynnwys cyngor ar sut i herio teler contract nad yw'n caniatáu anifeiliaid anwes mewn ffordd annheg, neu benderfyniad gan landlord sy'n ymddangos yn afresymol pan fo tenant wedi gofyn am gadw anifeiliaid anwes. Byddwn hefyd yn cynnwys manylion sefydliadau a all gynnig cyngor a chymorth yn y sefyllfaoedd hyn.

Mae Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 yn delio â chontractau preifat, gan gynnwys Tenantiaethau Byrddaliadol Sicr. Mae'r term "rhesymol" yn derm cyfreithiol generig sy'n caniatáu ystyried pob math o ffactorau. O ran anifeiliaid anwes, gall y ffactorau hyn gynnwys y math o eiddo, y math o anifail anwes, amgylchiadau unigol y tenant, ac unrhyw ffactorau lliniarol y gall y landlord eu hystyried yn briodol. Yn ein tudalennau canllaw, gallwn archwilio'r potensial i ddarparu senarios a allai fod yn rhesymol neu beidio, ond mae'n rhaid i ni fod yn ofalus iawn nad ydym yn cyhoeddi cyngor y gellid ei ystyried yn ddehongliad o'r gyfraith.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd am weld diwedd ar hysbysebion eiddo sy'n nodi dim anifeiliaid anwes fel teler cyffredinol. Mae deddfwriaeth hysbysebu yn parhau i fod yn swyddogaeth a gadwyd yn ôl. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei chynlluniau i ddeddfu er mwyn caniatáu mwy o hawliau i denantiaid o ran gallu cadw anifeiliaid anwes mewn eiddo rhent. Wrth gwrs, byddwn yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i ddeddfu i wahardd hysbysebion eiddo sy’n nodi dim anifeiliaid anwes fel rheol ar draws y DU. Bydd fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y DU i ganfod beth yn union yw’r cynlluniau ar gyfer hysbysebion eiddo yn ehangach, gan gynnwys cynigion i wahardd gwahaniaethu yn erbyn tenantiaid ar fudd-daliadau, neu "Dim DSS" fel y'i gelwir yn fwy cyffredin.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change